# Cyflwyniad

## Beth sydd yn y Pecyn Addysgol?

Mae pum pwnc yn y pecyn yma a phob un yn cynnwys nifer o weithgareddau a syniadau i gefnogi'r gwaith o archwilio safleoedd claddu. Dyma'r pynciau:

- ***Llefydd Gwerthfawr***
- ***Beth yw'r Stori?***
- ***Cofadeiladau Campus***
- ***Saffari Bywyd Gwyllt***
- ***Celf a Phensaernïaeth***

Mae pob pwnc yn rhoi sylw i ystod o bynciau.

Mae pecyn o ffotograffau sy'n dangos gwahanol agweddau ar safleoedd claddu a thaflenni gwaith neu dempledi ar gyfer rhai o'r gweithgareddau. Pan mae eu hangen ar gyfer gweithgaredd, mae'r rhain wedi'u rhestru o dan Adnoddau, ee ***Canllaw Gwesty Trychfilod***. Mae gwefannau, llyfrau a cherddi defnyddiol wedi'u rhestru yn y cefn.

### Y Cwricwlwm Cenedlaethol

Mae'r awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau'n cynnwys gwybodaeth drawsgwricwlaidd sy'n berthnasol i ddysgu yn CA1 a CA2 yng Nghymru a Lloegr. Maent hefyd yn cynnwys syniadau a gweithgareddau i gefnogi'r dysgu yng Nghyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar (CSBC). Hefyd, ceir syniadau ar gyfer prosiectau i'w cynnal yn yr ystafell ddosbarth ar ôl ymweliad, gan gynnwys syniadau 'Ysgrifennu Cyffrous' ar sut gall ymweliad â safle claddu ysbrydoli ffurfiau amrywiol ar ysgrifennu.

Gellir cyflwyno'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau a awgrymir mewn nifer o ffyrdd, i fod yn addas i anghenion y grŵp o blant rydych chi'n gweithio â hwy. Rydym yn eich annog i'w haddasu a dewis a dethol syniadau, i sicrhau bod eich ymweliad â'r safle claddu'n benodol i'ch pwnc chi ac i anghenion eich grŵp blwyddyn.

### Arweinwyr Grwpiau o Sgowtiaid a *Guides*



Mae'r pecyn hwn yn darparu gweithgareddau, heriau a syniadau ar gyfer gweithio tuag at fathodynnau a heriau amrywiol. Mae pob pwnc yn cynnwys gwybodaeth am y bathodynnau neu'r heriau y mae'r gweithgareddau yn eu cefnogi.



Dyma'r Bathodynnau a'r Heriau:

***Enfys*** – Edrych a Dysgu

***Beavers*** – Archwilio, Ffydd, Her Fyd-eang, Her Greadigol


***Brownies*** – Sgiliau, Canfod Eich Ffordd, Allan yn yr Awyr Agored, Diwylliant, Y Tymhorau, Archwiliwr Bywyd Gwyllt, Yr Amgylchedd, Ffrind i Anifeiliaid, Ymchwiliwr Gwyddoniaeth, Arlunydd

***Cybiau*** – Gwybodaeth Leol, Her Gymunedol, Her Cadwraeth Fyd-eang, Gwybodaeth Leol, Naturiaethwr, Arlunydd

***Guides*** – Canfod Eich Ffordd, Gweithredu Cymunedol, Darganfod Ffydd, Her i'r *Guides*, Diwylliant, Anifeiliaid Prysur, Gwyddoniaeth

***Sgowtiaid*** – Treftadaeth, Fy Ffydd I, Crefyddau'r Byd, Partneriaeth Amgylcheddol, Her Gymunedol, Naturiaethwr, Cadwraeth Fyd-eang, Arlunydd, Caru Celf, Ffotograffydd, Crefft

### Dyfarniadau John Muir



Mae'r awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau sydd yn y pecyn hwn yn cefnogi dysgu awyr agored fel Dyfarniadau John Muir. I ennill Dyfarniad John Muir, mae'r cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gyda phedair her yn rhan ganolog ohonynt.

Dyma'r heriau:

***Darganfod*** lle gwyllt

***Archwilio*** ei wylltineb

***Gwarchod*** – ysgwyddo rhai cyfrifoldebau personol

***Rhannu*** eich profiadau

Gall pob pwnc yn y pecyn hwn a'r holl weithgareddau gyfrannu at fodloni Heriau Dyfarniad John Muir, sef Darganfod, Archwilio, Gwarchod a Rhannu. Edrychwch ar y wefan i gael rhagor o wybodaeth: www.jmt.org/jmaward-home.asp

## Paratoi cyn ymweliad

### Gyda phwy mae cysylltu a beth i'w ofyn


Wrth gynllunio ymweliad â'ch safle claddu lleol, trafodwch eich cynlluniau gyda'r clerigwyr, warden yr eglwys, yr awdurdod lleol neu reolwr arall ar y safle. Efallai y byddant yn gallu rhoi gwybodaeth i chi am y safle penodol, a fydd yn gwella eich ymweliad. Mae'r manylion cyswllt ar gael ar hysbysfwrdd ar y safle yn aml iawn, neu ym mynedfa'r eglwys neu'r capel.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael y caniatâd a'r yswiriant angenrheidiol, a chymorth i gynnal eich ymweliad yn ddiogel.

Trafodwch gyda rheolwr y safle beth yn union rydych yn bwriadu ei wneud yn ystod eich ymweliad a gwnewch yn siŵr ei fod yn hapus gyda'ch cynlluniau. Gofynnwch iddo a oes posib i chi gasglu pethau fel dail marw, petalau blodau a mân-drychfilod ac a fyddai'n dderbyniol mynd â phethau oddi yno gyda chi, neu dynnu lluniau gyda chamera. Os ydych yn bwriadu gwneud rhwbiadau ar gofadeiladau, trafodwch hyn ymlaen llaw gyda rheolwr y safle, gan ofyn pa gofadeiladau fyddai fwyaf priodol a diogel. Bydd hefyd yn gallu dweud wrthych chi os oes claddedigaeth yn cael ei chynnal yno (holwch hyn rai dyddiau ymlaen llaw cyn yr ymweliad). D.S. mae llawer o safleoedd claddu hŷn wedi 'cau' ac felly nid oes unrhyw gladdedigaethau newydd yn cael eu cynnal ynddynt.

### Asesiad Risg

Fel gydag unrhyw ymweliad awyr agored, edrychwch ar ragolygon y tywydd a gwnewch yn siŵr bod pawb wedi gwisgo'n ddoeth. Dylai arweinwyr grwpiau gynnal ymweliad paratoi â'r safle er mwyn meddwl am unrhyw beryglon tebygol y dewch ar eu traws ac i gynnal asesiad risg. Efallai y bydd rheolwr y safle'n gallu dweud wrthych chi am risgiau penodol i'r safle (mae'r safleoedd hyn ar agor i'r cyhoedd ac felly dylent fod yn ymwybodol o beryglon fel cofadeiladau ansefydlog).



Dyma rai peryglon penodol i safleoedd claddu: mae coed yw yn cynnwys tocsinau ac felly ni ddylid bwyta'r aeron arnynt, cofgolofnau peryglus, tir anwastad, peryglon baglu a llithro, rheiliau isel neu finiog.

Ar gyfer ymweliadau grŵp neu ddigwyddiadau agored, gwnewch yn siŵr eich bod yn meddwl am gyfleusterau fel parcio, toiledau a golchi dwylo. Os nad oes unrhyw gyfleusterau golchi dwylo ar gael, efallai yr hoffech chi gyflenwi diheintyddion llaw a thyweli papur.

### Y Pethau Ddylid ac Na Ddylid eu Gwneud

Cyn eich ymweliad, trafodwch gyda'ch grŵp pam mae'r safle'n bwysig i bobl. Gan fod y safleoedd hyn yn llefydd ar gyfer claddu, cofiwch fod posib i bobl fod yn ymweld â beddau ac y byddent yn gwerthfawrogi tawelwch a llonyddwch. Byddwch yn sensitif wrth fynd yn agos at feddau newydd a'r rhai sy'n cael ymweliadau rheolaidd a chofiwch fod posib i'r plant yn eich grŵp fod â ffrindiau neu berthnasau sydd wedi'u claddu yn y safle. Efallai ei bod yn well archwilio'r ardaloedd hynaf o'r fynwent, lle rydych yn llai tebygol o ddod o hyd i feddau diweddar neu feddau y mae pobl yn ymweld â hwy'n rheolaidd. Mae'n rhaid atal plant rhag dringo neu wyro ar gofadeiladau er mwyn eu cadw'n ddiogel a hefyd er mwyn ymddwyn yn briodol.

Yn gyffredinol fodd bynnag, mae pobl yn mwynhau clywed a gweld plant yn eu safle lleol ac mae mynwentydd eglwysi'n llefydd ar gyfer gweithgareddau yn ogystal â galaru: priodasau, dathliadau, gwyliau, ysgolion Sul. Peidiwch â phoeni, a gadewch i'r plant ymlacio a mwynhau eu hunain yn union fel maent yn ei wneud wrth ymweld ag unrhyw lecyn hanesyddol arall.

O'n profiad ni, mae rheolwyr safleoedd claddu'n croesawu ymweliadau gan grwpiau ac yn awyddus i blant ddysgu am y llefydd rhyfeddol hyn a'u mwynhau. Efallai y byddant eisiau helpu gydag ymweliad ac y gallant eich cynghori am fannau o ddiddordeb penodol ac arferion crefyddol wrth i chi ymweld, a dweud wrthych chi sut mae'r safle'n cael ei reoli.

# Gwybodaeth Ychwanegol

## Mynwentydd Eglwysi a Chapeli

Mynwent eglwys neu gapel yw'r tir o amgylch eglwys neu gapel, neu'r drws nesaf iddi. Ers blynyddoedd lawer, mae'r safleoedd hyn wedi cael eu defnyddio fel safleoedd claddu neu fynwentydd cysegredig ar gyfer claddu meirw'r plwyf. Mae hwn wedi bod yn arfer cyffredin ers yr 8fed ganrif. Maent yn cael eu rheoli'n gyffredinol gan wirfoddolwyr lleol.

Tir Cysegredig yw tir sydd wedi cael ei ddatgan yn sanctaidd at bwrpas crefyddol.

## Mynwentydd Eraill

Mae mynwentydd eraill yn safleoedd claddu heb gyswllt ag eglwys, capel neu gred grefyddol benodol. Arweiniodd mudo trefol a gorlenwi mynwentydd at ofnau am iechyd y cyhoedd ac, o ganlyniad, datblygwyd llawer o fynwentydd ym Mhrydain o'r 1820au ymlaen. Yn wahanol i fynwentydd eglwys, roedd y rhain yn cael eu lleoli ar gwr y pentref neu'r dref, yn hytrach nag yn y canol. Hefyd, mae mynwentydd fel hyn yn tueddu i fod yn llawer mwy na mynwentydd eglwys. Roeddent yn cael eu rhagweld yn wreiddiol fel gofod agored cyhoeddus, neu 'erddi coffa', ac yn cael eu cynllunio'n broffesiynol i fod yn llefydd atyniadol i ymweld â nhw. Yn gyffredinol, maent yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol ac, yn achlysurol, gan ymddiriedolaethau neu grwpiau 'cyfeillion'.

## Cofgolofnau Rhyfel

Yn gyffredinol, mae cofgolofnau rhyfel yn cael eu codi gan gymunedau neu grwpiau lleol i gofio'r bobl hynny a fu'n rhan o ryfel neu wrthdaro, neu a effeithiwyd gan y rhain. Mae llawer ohonynt yn bwysig am eu treftadaeth bensaernïol ac artistig ac yn rhestredig. Mae cofgolofnau newydd yn dal i gael eu codi.

Mae'r War Memorials Trust yn gweithio i warchod a chadw cofgolofnau rhyfel yn y DU, ac mae'r Commonwealth War Graves Commission, a sefydlwyd yn 1915, yn trefnu'r gofal o gofgolofnau rhyfel a'u cadwraeth a'r gwaith cynnal a chadw arnynt.

## Pyrth Mynwentydd

Mae'r gair *lychgate* yn Saesneg yn tarddu o'r gair *Lic* o'r Hen Saesneg, sy'n golygu corff marw. Yn y gorffennol, roedd y corff yn cael ei gludo i borth y fynwent a'i osod ar arch neu elor carreg, lle'r oedd yr offeiriad yn cynnal rhan gyntaf y gwasanaeth angladdol. Mae pyrth mynwentydd i'w canfod wrth fynedfeydd mynwentydd eglwysi, ac wrth yr allanfa hefyd weithiau. Daethant yn boblogaidd yn yr 19eg ganrif ac roeddent yn cael eu hadeiladu o waith coed canoloesol, i gofio person lleol yn aml, neu ddigwyddiad arbennig neu fel cofgolofn rhyfel.

## Hanes Mynwentydd Eglwysi

Arferai mynwentydd eglwysi fod wrth galon gweithgarwch y gymuned ac yn lleoliad ar gyfer marchnadoedd, ffeiriau, cyfarfodydd a dramâu lleol. Ar hen adeiladau eglwysi, fe welwch chi rigolau dyfnion yn aml, wedi'u crafu yn y gwaith cerrig. Gwnaed y rhain gan ddynion a bechgyn lleol yn rhoi min ar eu saethau yn ystod ymarfer saethyddiaeth gorfodol gyda chocynnau hitio a osodwyd yn y fynwent. Cynhaliwyd gemau fel coetio, nawpin a reslo mewn mynwentydd eglwysi hefyd, ac roedd waliau'r eglwysi neu'r capeli'n cael eu defnyddio i chwarae gêm o'r enw pumoedd. Roedd 'Cwrw Eglwys' neu wyliau cwrw'n cael eu trefnu'n aml gan wardeniaid eglwysi i godi arian ac roeddent yn wledd o fwyta, yfed a dathlu.

## Pwysigrwydd Bywyd Gwyllt Safleoedd Claddu

Mae llawer o safleoedd claddu'n gyforiog o fywyd gwyllt, o ganlyniad i'w hoedran a'u natur oesol yn rhannol. Maent yn ynysoedd o lonyddwch a thawelwch mewn tir trefol a gwledig ac yn aml iawn maent wedi osgoi colli bywyd gwyllt a'i gynefinoedd, fel sydd wedi digwydd mewn llefydd eraill. Mae'r  glaswelltir mewn safleoedd claddu'n gallu bod yn llawn blodau a phryfed fel gwenyn, glöynnod byw a cheiliogod y rhedyn. Yn aml iawn, mae safleoedd claddu'n cynnwys coed mawr a hynafol sy'n cynnwys llawer o adar, mamaliaid ac infertebrata. Mae cofadeiladau a waliau cerrig yn gallu bod yn gartref i lu o greaduriaid fel madfallod a madfallod dŵr, llyffantod, gwenyn unig a phlanhigion penodol fel mwsoglau a rhedyn. Ceir ardaloedd o laswellt tal, prysgwydd neu lwyni yn aml iawn sy'n gallu cynnwys nadroedd defaid, draenogod ac adar. Felly, mae safleoedd claddu'n gynefinoedd bywyd gwyllt eithriadol werthfawr gydag ystod eang o blanhigion ac anifeiliaid yn bresennol.

### *Mae Safleoedd Claddu yn Hynod Nodedig am Goed Yw, Cennau a Rhywogaethau o Laswelltiroedd:*

### *Coed Yw*

Gwelir y casgliad mwyaf arwyddocaol o goed Yw hynafol yn Ewrop ym mynwentydd eglwysi Cymru a Lloegr. Mae oddeutu 800 o Goed Yw sy'n hŷn na 500 mlynedd oed wedi cael eu cofnodi, ac mae'r holl Yw ar safleoedd claddu'n elfennau nodedig o'n tirlun. Mae nifer y coed Yw wedi bod o dan fygythiad am gannoedd o flynyddoedd. Yn Ewrop, cawsant eu torri ar raddfa fawr ar gyfer creu saethau hir i Loegr drwy gydol y cyfnod rhwng y 13eg ganrif i ddiwedd yr 16eg ganrif. Gorchmynnodd Harri IV bod ei saethwr brenhinol yn 'torri coed Yw neu unrhyw goed eraill ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus'. Fodd bynnag, roedd yn eithrio coed Yw ar stadau'r urddau crefyddol. O ganlyniad, cafodd y coed Yw a oedd yn tyfu ym mynwentydd yr eglwysi eu hachub rhag mania'r saethau hir. Yn y Canol Oesoedd, cafodd coed Yw eu torri oherwydd eu heffaith wenwynig ar anifeiliaid ac, mewn cyfnod mwy modern, mae mwyafrif

y coed Yw yng Ngogledd America ac Asia wedi cael eu dinistrio am y cyfansoddion gwrth-ganser sydd i'w canfod yn y rhisgl.

Yn hanesyddol, mae llawer o wahanol grefyddau ym mhob cwr o'r byd wedi ystyried coed Yw fel coed cysegredig, ac maent yn dal i feddwl hynny – er enghraifft, y Derwyddon, y Bwdhyddion, y Celtiaid a'r Cristnogion cynnar. Mae hirhoedledd yr Ywen wedi ei gwneud yn symbol o fywyd tragwyddol, ailymgnawdoliad ac atgyfodiad i lawer o wahanol grefyddau ac mae lle wedi bod iddi mewn llawer o arferion claddu. Yn yr oes Gristnogol gynnar, roedd darn o goeden Ywen yn cael ei gladdu gyda'r meirw er mwyn helpu'r enaid i gael bywyd tragwyddol. Hefyd, defnyddiwyd canghennau coed Yw yng ngwasanaethau 'Sul y Palmwydd' yr eglwysi adeg y Pasg.

### *Cennau*

Dwy neu fwy o organebau'n byw gyda'i gilydd fel un yw cennau; ffyngau ac algâu. Y ffyngau yw'r elfen weladwy o'r cen a'r tu mewn, yn cael eu gwarchod gan linynnau'r ffwng, mae celloedd algâu, sy'n gallu ffotosyntheseiddio gan roi bwyd i'r cen cyfan. Os oes digon o olau a lleithder, mae cennau'n gallu tyfu ar arwynebau sy'n anaddas i blanhigion eraill. Mae rhai'n tyfu'n araf iawn, llai na hanner milimedr y flwyddyn weithiau, ac eraill yn tyfu'n llawer cynt. Mae llawer o gennau'n byw am hir iawn. Gall cen unigol fod mor hen â'r garreg fedd y mae'n tyfu arni. O blith y 2000 o rywogaethau o gen yn y DU, mae mwy na 700 wedi'u canfod mewn safleoedd claddu ac mae bron i hanner y rhain yn brin a phur anaml i'w gweld mewn llefydd eraill, os o gwbl.

Gall gwahanol greigiau a deunyddiau adeiladu fod â chymunedau nodedig o gen, a hefyd mathau amrywiol o waith cerrig: bydd y cerrig beddau, y waliau a'r adeiladau'n amrywio o ran eu harwynebau, yn arw ac yn llyfn, cysgodol ac agored, llaith a sych, llorweddol a fertigol. Mae'r rhain i gyd yn darparu cilfachau amrywiol i gennau ac efallai fod gwahanol rywogaethau'n byw arnynt. Hefyd, gwelir cennau ar goed, strwythurau pren fel ffensys a giatiau, ardaloedd glaswelltog, llwybrau a chaeadau biniau sbwriel rwber hyd yn oed.

Mae pobl wedi bod yn defnyddio cennau ers canrifoedd. Yn yr hen Rufain, defnyddiwyd cennau i wneud lliw porffor ar gyfer y togas. Ar Ynysoedd yr Hebrides Allanol, mae cennau'n dal i gael eu defnyddio i liwio gwlân o oren i frown er mwyn gwneud Brethyn Harris.

### *Glaswelltir*

Dolydd hynafol oedd y rhan fwyaf o fynwentydd eglwysi yn wreiddiol, neu borfeydd. O ganlyniad, mae nifer ohonynt yn cynnwys glaswelltir sydd â chyfoeth o rywogaethau yn awr, wedi'i amgáu a heb ei ddifetha i raddau helaeth, a'i warchod rhag y cemegau a ddefnyddir yn aml mewn amaethyddiaeth fodern. Mae tyweirch tal a byr yn gallu bod yn llawn glaswelltau, mwsoglau, blodau ac, yn yr hydref, ffyngau'r glaswelltir. Mae chwedlau gwerin a hen enwau planhigion yn taflu goleuni ar eu cysylltiad â mynwentydd eglwysi a chalendr yr eglwys. Er enghraifft, mae eirlysiau'n cael eu galw hefyd yn Forynion Teg Chwefror, Canhwyllau Cwyr Mair a Chlychau Gŵyl Fair y Canhwyllau (mae Gŵyl Fair y Canhwyllau ar yr 2il o Chwefror). Efallai fod llawer iawn o anifeiliaid yn byw yn y glaswelltir hwn â'i gyfoeth o rywogaethau, neu'n gwneud defnydd ohono, o infertebrata'r pridd a glöynnod byw i nadroedd y gwair, adar sy'n bwyta hadau a phryfed, llygod a chwistlod.

## Gofalu am Erw Duw

Elusen yw Gofalu am Erw Duw sydd wedi ymrwymo i gadwraeth safleoedd claddu sy'n perthyn i bob crefydd neu enwad, neu heb gysylltiad ag unrhyw grefydd nac enwad. Ein nod ni yw annog y gwaith o warchod bywyd gwyllt a gwarchod treftadaeth y safleoedd hyn, a chynnwys pobl yn y gwaith o ofalu amdanynt a'u rheoli, dysgu amdanynt a mwynhau'r llefydd hardd a rhyfeddol hyn. Cewch ragor o wybodaeth yn www.caringforgodsacre.org.uk.

### *Prif Rywogaethau Gofalu am Erw Duw*

Rydym wedi dewis 6 phrif rywogaeth sy'n nodweddiadol o safleoedd claddu, yn hawdd i'w canfod ac yn ddiddorol i ddysgu amdanynt. Gobeithio y bydd y rhain yn abwyd i helpu gyda dysgu am yr ystod o gynefinoedd a nodweddion diddorol sydd mewn safleoedd claddu. Y rhain yw; coed Yw (gweler yr adran flaenorol), Nadroedd Defaid, Draenogod, Gwenoliaid Duon, Cacwn a Ffyngau Cap Cwyr.

### *Neidr Ddefaid*

Mae'r Neidr Ddefaid yn rhywogaeth ddiniwed o ymlusgiad sydd i'w chanfod ledled y DU. Maent i'w gweld mewn ardaloedd gwledig a threfol ac mae safleoedd claddu'n gallu darparu cynefin da iawn ar eu cyfer. Mae'r neidr ddefaid yn cael ei chamgymryd yn aml am neidr gyffredin, ond madfall heb goesau ydyw mewn gwirionedd. Mae ganddi amrannau, tafod fforch wastad ac mae'n gallu gollwng ei chynffon er mwyn dianc rhag ysglyfaethwr. Mae'r nodweddion hyn i gyd yn perthyn i fadfallod, nid nadroedd. Mae Nadroedd Defaid yn tyfu o 4cm wrth ddeor i oddeutu 30cm o hyd ac maent yn gallu byw am amser hir; Neidr Ddefaid wrywaidd wnaeth fyw am 54 o flynyddoedd yn Sŵ Copenhagen sy'n dal y record!

Fel pob ymlusgiad, mae Nadroedd Defaid yn defnyddio gwres yr haul i'w cynhesu eu hunain. Fodd bynnag, pur anaml maent yn torheulo mewn ardal agored; maent yn aros yn y cysgod fel rheol, mewn glaswellt tal yn aml, neu bentyrrau o goed a thomenni compost, lle maent yn hela am ysglyfaeth sy'n symud yn araf, fel gwlithod a phryfed genwair. Maent yn gaeafgysgu yng nghanol glaswellt twmpathog, pentyrrau o goed, tomenni compost neu gerrig, gan ddod allan yn y gwanwyn a magu ym mis Mai. Dywedir bod Nadroedd Defaid yn 'rhoi genedigaeth' i'w rhai bach, yn hytrach na dodwy wyau. Mae'r fenyw yn dal yr wyau mewn pilen yn ei chorff nes bod y rhai bach yn cael eu geni ym mis Awst neu fis Medi. Yr enw am hyn yw mewnddeor *('ovoviviparity')*.

### *Draenog*

Gwelir draenogod ledled Prydain fwy neu lai, gan gynnwys trefi a dinasoedd, yn enwedig y rhai sydd â rhwydwaith o safleoedd claddu, parciau a gerddi. Blew wedi'u haddasu yw pigau draenogod mewn gwirionedd, ac nid oes pigau ar wyneb, brest, bol na choesau'r draenog, dim ond ffwr llwydfrown bras. Pan mae draenog yn cyrlio i fyny mae'n troi'n un belen gyflawn o bigau er mwyn ei amddiffyn ei hun. Mae draenogod yn bwydo ar chwilod, lindys, pryfed genwair, pryfed clustiog, gwlithod a malwod yn bennaf. Maent yn greaduriaid nosol ac yn tueddu i chwilio am fwyd dros ardal eang, gan deithio tua milltir neu ddwy y noson. Mae ganddynt synnwyr arogl da ond nid ydynt yn gweld yn dda iawn. Maent yn chwilfrydig iawn. Maent yn tueddu i fod yn anifeiliaid unig, ar wahân i gyfnod y tymor magu, pan fydd y gwrywod yn mynd i chwilio am y benywod. Mae'r draenogod bach yn cael eu geni rhwng mis Mai a mis Medi, gyda rhwng 2 a 6 o rai bach yn cael eu geni bob tro. Maent yn aros yn y nyth am oddeutu'r pedair wythnos cyntaf, ac wedyn maent yn dechrau cael eu diddyfnu ac yn cael eu harwain ar dripiau chwilio am fwyd yn ystod y nos gan eu mam. Yn fuan wedyn, bydd y rhai bach yn gadael y nyth ar eu liwt eu hunain ac mae'r teulu'n gwahanu.

Mae draenogod yn gaeafgysgu o ddiwedd yr hydref ymlaen (yn dibynnu ar y tywydd), mewn nyth wedi'i gwneud o hen ddail sych, glaswellt neu lystyfiant arall. Byddant yn gwneud hyn ym môn gwrych, mewn tomen gompost, yng nghanol gwreiddiau coed neu o dan bentyrrau o foncyffion coed.

Wrth aeafgysgu, mae corff y Draenog yn arafu ac nid yw'n symud o gwbl. Wedyn mae'n deffro ac yn dod allan yn y gwanwyn, gyda'r amser yn dibynnu unwaith eto ar y tywydd ac ar faint mae ei gronfeydd o fraster yn para.

### *Gwennol Ddu*

Mae gwenoliaid duon yn edrych fel gwenoliaid a gwenoliaid y bondo, ond maent yn perthyn yn nes i adar y si mewn gwirionedd. Maent yn grŵp erodynamig eithriadol o adar, gan dreulio'r rhan fwyaf o'u bywydau'n hedfan. Mae siâp y wennol ddu mor addas i hedfan fel nad yw'n gallu glanio ar dir gwastad. Mae ganddi draed a choesau bach iawn hefyd. Mae Gwenoliaid Duon yn paru am oes ac yn dychwelyd i'r un safleoedd nythu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Maent yn tueddu i nythu mewn criwiau mawr ac mae ganddynt sgrech o gri, i ddenu gwenoliaid duon eraill i safle nythu. Maent yn nythu mewn twll mewn clogwyn, wal neu do, gyda'r nyth gyfan allan o'r golwg. Mewn safleoedd claddu, edrychwch a gwrandewch am wenoliaid duon rhwng misoedd Ebrill ac Awst a cheisiwch weld a ydynt yn nythu yn yr adeiladau. Dim ond am ryw 3 mis maent yn aros yn y DU, pan maent yn nythu; maent yn treulio gweddill y flwyddyn yn hedfan, yn hela am bryfed ac yn mudo ar draws Ewrop i Affrica'r cyhydedd a dwyrain Affrica. Gall blocio mynedfa nyth arwain at ganlyniadau trychinebus i nythaid gyfan ac mae angen mawr am safleoedd nythu ar eu cyfer.

### *Cacynen*

Mae cacwn yn fwy ac yn fwy blewog na gwenyn eraill, sy'n golygu eu bod yn addas ar gyfer ein hinsawdd ni. Maent yn bryfed cymdeithasol ac yn byw mewn nythod o hyd at 400 o unigolion, o dan reolaeth un frenhines. Yn wahanol i wenyn mêl, nid ydynt yn heidio nac yn ffyrnig (ond maent yn gallu eich pigo os ydynt o dan fygythiad). Dim ond am flwyddyn mae eu nyth yn para. Mae cacwn yn hanfodol ar gyfer peillio ein planhigion. Maent hefyd yn brysur mewn tywydd oerach – mae'n bur debyg mai'r wenynen gyntaf welwch chi yn y gwanwyn, a'r olaf welwch chi yn yr hydref, fydd y Gacynen. Ceir 24 o rywogaethau o Gacwn sy'n frodorol i Brydain, gyda dosbarthiad 8 o'r rhain yn eang. Mae'n gymharol hawdd eu hadnabod gyda llyfr neu siart. Edrychwch ar wefan y Bumblebee Conservation Trust neu siart plyg y Cyngor Astudiaethau Maes ar wenyn.

### *Ffwng Cap Cwyr*

Mae capiau cwyr yn tueddu i fod yn ffyngau lliwgar iawn ac i'w canfod mewn hen laswelltir sy'n cael llonydd ac sydd heb ei aredig, ei ailhadu, ei wrteithio na'i drin gyda chemegau. Maent yn hawdd i'w gweld gan fod y lliwiau'n amrywio o goch, oren, melyn a phinc i lwyd, brown a du. Gydag enwau fel Balerina, Gwridog, Serennig a Pharot, mae'r capiau cwyr yn hwyl i edrych arnynt ac yn ymddangos yn yr hydref fel gemau wedi'u gwasgaru yn y glaswellt.



### Dyfarniad John Muir

Naturiaethwr Americanaidd a aned yn yr Alban oedd John Muir (1838-1914), awdur a chefnogwr cynnar i warchod diffeithdir America. Mae'n cael ei alw'n dad parciau cenedlaethol America weithiau, ac fe wnaeth gyfraniad enfawr at y mudiad cadwriaethol. Heddiw, mae ei erthyglau a'i lyfrau'n parhau i annog ac ysbrydoli pobl i ymweld â llefydd gwyllt.

Mae Ymddiriedolaeth John Muir yn elusen gadwriaethol Brydeinig sydd wedi ymrwymo i warchod llefydd gwyllt. Maent yn berchen ar ac yn gofalu am rai o dirluniau gwyllt godidocaf Prydain, gan gynnwys Ben Nevis yn yr Alban. Sylfaenwyd yr Ymddiriedolaeth yn 1983 a'i hysbrydoliaeth yw John Muir. Fel Muir, mae'r Ymddiriedolaeth yn credu mewn gwarchod tir gwyllt er mwyn ei gadw ac yn credu bod llefydd gwyllt yn hanfodol i bobl ac i fywyd gwyllt. Maent yn cynnal system o ddyfarniadau (Dyfarniad John Muir) gan annog pobl o bob oed i gysylltu â llefydd gwyllt, eu mwynhau a gofalu amdanynt. Mae safleoedd claddu'n llefydd delfrydol i roi rhaglen Dyfarniad John Muir ar waith. Cewch ragor o wybodaeth am Ymddiriedolaeth John Muir yn www.jmt.org.